Canmoliaethau a Chwynion

Rydym yn gwneud ein gorau i ddarparu gwasanaethau rhagorol sy'n diwallu anghenion ein tenantiaid bob tro. Os ydych yn credu ein bod wedi gwneud gwaith gwych, neu os ydych yn teimlo bod aelod o staff wedi mynd cam ymhellach, yna rhowch wybod i ni. Gallech wneud hyn drwy anfon llythyr neu neges e-bost yn uniongyrchol at y person sydd wedi cyflwyno'r gwasanaeth, fel eich swyddog tai lleol.

Rydym hefyd yn deall, fodd bynnag, y gall pethau fynd o chwith weithiau. Os nad ydych yn hapus gyda'r gwasanaeth yr ydych wedi ei dderbyn dylech gysylltu â'r person sydd wedi darparu'r gwasanaeth, er enghraifft, eich swyddog tai lleol.

Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon ac yn teimlo bod angen i chi wneud cwyn, yna rhowch wybod i ni. Mae cwynion yn bwysig oherwydd gallant ein helpu i weld lle mae diffygion yn y ffordd yr ydym yn gwneud pethau a'r hyn y gallwn ei wneud i wella.

Gallwch gyflwyno cwyn yn y ffyrdd canlynol:

- Llenwi ffurflen ar ein gwefan ar www.caerffili.gov.uk/cwynion
- Anfon e-bost at cwynion@caerffili.gov.uk
- Ysgrifennu at y Swyddog Cwynion Corfforaethol: Mrs A Jones, Yr Adran Gyfreithiol, CBS Caerffili, Tŷ Penallta, Ystrad Mynach, CF82 7PG
- Ffonio ni ar 01443 864221
- Gallwch hefyd ofyn am ffurflen oddi wrth y person yr ydych eisoes mewn cysylltiad â hwy. Dywedwch wrthynt eich bod am i ni ddelio â'ch cwyn yn ffurfiol.